



Ymchwiliadau yn ymwneud â Gweithwyr – Astudiaeth Achos Partneriaeth Gymdeithasol

Darllenwch am sut y gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wella profiad staff o ymchwiliadau yn ymwneud â gweithwyr, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ei weithlu.

Gweithiodd y Bwrdd Iechyd mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu dull newydd o wella profiad staff o'i ymchwiliadau yn ymwneud â gweithwyr, a chyflwynodd hyfforddiant i gefnogi'r rhaglen waith hon.

Mae'r dull yn cynnwys canolbwyntio ar gam asesu cychwynnol ymchwiliadau i benderfynu a oes angen ymchwiliad, ac ystyried opsiynau amgen. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar yr unigolyn, i helpu i ddatblygu diwylliant sy'n ystyried cyfleoedd ar gyfer dysgu ac yn cefnogi llesiant gweithwyr.

Arweiniodd y rhaglen waith at ostyngiad yn nifer yr ymchwiliadau a'r amser a gymerodd i gwblhau ymchwiliadau. Arweiniodd hyn at lai o absenoldebau ymhlith staff a nodwyd arbedion ariannol.

Roedd ymgysylltu ag undebau llafur drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r dull newydd a chyflwyno'r

hyfforddiant yn bwysig iawn. Fe wnaeth hyn helpu i fagu hyder unigolion yn y dull newydd a'r gwahaniaeth yr oedd yn ceisio ei wneud, sef arwain prosesau gyda thosturi, creu diwylliant o ddysgu, a sicrhau bod ymchwiliadau ond yn cael eu defnyddio fel dewis olaf.

Mae'r hyfforddiant yno i nifer o wahanol randdeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r timau adnoddau dynol, rheoli a llesiant, a chynrychiolwyr undebau llafur, i helpu i alluogi dysgu effeithiol.

Yn dilyn hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddarparu'r hyfforddiant ar draws GIG Cymru ac archwilio'r cyfle i'w rannu'n ehangach ar draws sector cyhoeddus Cymru.

Am fwy o fanylion, ewch i [AaGIC](#).

